# Derbyniadau brys: dull Rheoli Iechyd y Boblogaeth i leihau derbyniadau brys yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Cyd-destun Lleol

**Y Bwrdd Iechyd**: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

**Clwstwr Gofal Sylfaenol**: Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

**Maint y boblogaeth:** 78,129

**Amddifadedd:** Mae 21.5% o'r boblogaeth yn byw yn y ddwy ran o bump mwyaf difreintiedig

## Amcanion

**Roedd nodau'r prosiect yn canolbwyntio ar brofi ymarferoldeb a derbynioldeb gweithredu dull data Segmenteiddio'r Boblogaeth a Phennu lefel risg yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, ac os byddai defnyddio data o'r fath yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynychu practisiau meddyg teulu o bosibl yn atal rhai derbyniadau brys y gellid eu hosgoi.**

## Carfan y Prosiect

Gan ddefnyddio dull Rheoli Iechyd y Boblogaeth, roedd cleifion yn gymwys os oeddent:

- Wedi cofrestru gyda phractis cyffredinol yng Nghlwstwr Gofal Sylfaenol Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr
- Yn byw yn y ddwy ran o bump mwyaf difreintiedig yng Nghlwstwr Gofal Sylfaenol Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr
- 50+ mlwydd oed
- Yn y grŵp risg uchel neu gymedrol ar gyfer derbyniadau brys yn y 12 mis nesafmewn segmentau poblogaeth 3, 4, 6, 7, 8, 9 neu 10
- Os oes ganddyn nhw gyflwr anadlol, cylchrediad neu iechyd meddwl

## Maint y garfan

Cafodd **428 o gleifion** ei nodi

## Ymyrraeth

Gweithiodd Uned Rheoli Iechyd y Boblogaeth yn agos gyda Chlwstwr Gofal Sylfaenol Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr i ddatblygu'r prosiect hwn.

Cysylltodd staff practis â chleifion ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023, gan gynnal sgyrsiau i ddeall anghenion cleifion a'r cymorth yr oedd ei angen arnynt.

Cafodd cleifion eu hatgyfeirio at un neu fwy o wasanaethau fel y bo'n briodol; gan gynnwys tîm Rhwydwaith Cymunedol Integredig y Dwyrain (ICNT), Gofal a Thrwsio a phresgripsiynu cymdeithasol.

## Llwybrau Cleifion

Cysylltodd **139 o gleifion** yn llwyddiannus

Cafodd **45 o gleifion** eu hatgyfeirio at ymyriad

- **19** i ICNT
- **19** i Gartrefi Iach
- **21** i bresgripsiynu cymdeithasol

## Gwerthusiad

Hwn oedd un o'r cymwysiadau cyntaf o ddull Rheoli Iechyd y Boblogaeth mewn gofal sylfaenol yng Nghymru, gan gefnogi'r clwstwr gofal sylfaenol i fabwysiadu dull rhagweithiol, ataliol o reoli cleifion. Bydd mewnwelediad a dysgu o'r prosiect hwn yn llywio ac yn cefnogi prosiectau yn y dyfodol o'u cychwyn, eu cyflwyno a'u prosesau, a gwerthuso canlyniadau.

### *Adborth staff*

*"'Roedd yr atgyfeiriadau a chafodd ni i gyd yn briodol, gyda chanlyniadau a buddion rhagorol i'r claf"*

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
University Health Board